CYMDEITHAS HANES A CHOFNODION MEIRIONNYDD

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2015

a gynhaliwyd yn Neuadd Llanelltyd 10 Hydref 2015.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau a'r gwahoddedigion i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

* * * * * * * *

YMDDIHEURIADAU: Hugh G Roberts; Nan Griffiths, Vivian Parry Williams; Steffan ab Owain; A L Darbyshire, Dr Elizabeth Andrews; Hefin Birch; Gaynor Pugh; Aled Ellis; Catherine Lloyd Griffiths.

1. **Cymeradwywyd Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2014.**
2. **Materion yn codi o'r Cofnodion:** Dim
3. **Crynodeb o gyfarfod y Cyngor yn ystod y bore:** Rhoddwyd crynodeb i'r aelodau o'r trafodaethau a fu yn ystod y bore gan esbonio'r sefyllfa o ran *Hanes Meirionnydd* Cyf III a'r anhawster o ran symud y prosiect ymlaen. Awgrymwyd o'r llawr y gellid defnyddio'r arian i gyhoeddi deunyddiau eraill yn gysylltiedig â hanes y Sir. Cadarnhaodd y Cyfarfod Blynyddol argymhelliad y Cyngor.
4. **Cyfrifon am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2015:** Derbyniwyd y Cyfrifon Terfynol (gweler sylwadau'r Trysorydd yng Nghofnodion y Cyngor). Pwysleisiodd aelod o'r llawr mor bwysig yw i Gymdeithasau gael cyfeiriadau e-bost yr aelodau er mwyn arbed arian postio. Diolchwyd i Rheinallt am ei waith trwyadl a manwl.
5. **Adroddiad Blynyddol:** Cytunwyd bod yr adroddiad yn gofnod cywir.
6. **Adroddiad Aelodaeth:** Cyflwynodd yr Ysgrifennydd ei hadroddiad (gweler Cofnodion y Cyngor) a diolchwyd i Pamela am ei holl waith yn cael trefn ar sefyllfa gymhleth iawn.
7. **Adroddiad y *Cylchgrawn*:** nododd y Golygydd bod y proflenni yn nwylo'r Wasg ac y bydd y *Cylchgrawn* yn cynnwys 5 erthygl, 4 cyfraniad byr, y gweithrediadau ac 8 adolygiad. Nododd ei fod eisoes wedi derbyn 1 erthygl at y rhifyn nesaf. Y mae 10 CD o'r mynegai ar gael o hyd ac mae'r gwaith o fynegeio'r cyfrolau nesaf, 5 cyfrol, i ddechrau ar ddiwedd y flwyddyn. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y deunydd gwerthfawr a gyhoeddir yn y Cylchgrawn yn flynyddol a'n diolch i'r Golygydd am ei waith manwl.
8. **Gair gan y Trefnydd Cyfarfodydd:** Rhoddodd y Trefnydd grynodeb o weithgareddau'r flwyddyn (gweler Cofnodion y Cyngor) a diolchwyd yn fawr iddi am ei gwaith.
8. **Ethol Swyddogion:** Cadarnhawyd penderfyniad y Cyngor i ofyn i Arwyn Lloyd Hughes dderbyn y swydd o Is-lywydd fel arwydd o'n diolchgarwch. Cadarnhawyd hefyd Catherine James yn aelod dros Ddolgellau ar y Cyngor a Jenny Lees i gynrychioli Edeirnion. Nodwyd bod bylchau ar y Cyngor o hyd yn ardal Ystumanner a chadarnhawyd y rhestr swyddogion a gynigwyd gan y Cyngor (gweler y cofnodion amgaeedig).
9. **Unrhyw Fater Arall:** Cyfeiriwyd yr aelodau at y llyfrau oedd ar werth yn y cyfarfod. Soniwyd am y pryder am Bont ar Ddyfi.

* * * * * * * * *

Clôdd y Cadeirydd y cyfarfod busnes trwy ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Gymdeithas ac i'r cyfieithydd am ei waith.

Yn ystod y prynhawn cafwyd cyflwyniad hynod ddifyr gan Brian Slyfield ar hen lyfrau Meirionnydd. Roedd yn braf iawn i'r aelodau gael cyfle i bori trwy rai o'r cyfrolau hynaf yn y cyfarfod. Diolchodd Rheinallt Llwyd iddo am agor ein llygaid i hanes clodwiw'r Sir yn y maes hwn.

Ysgrifennydd / Secretary: Beryl H Griffiths, Nant-y-llyn,
Cynllwyd Uchaf, Y Bala, Gwynedd, LL23 7DF
Ffôn/Tel: 01678 540 384 ysgrifennyddchsf@yahoo.co.uk
ELUSEN GOFRESTREDIG/REGISTERED CHARITY 1102366

MERIONETH HISTORICAL AND RECORD SOCIETY

Minutes of the Annual General Meeting 2015

held on Saturday, 10 October 2015 at the Village Hall, Llanelltud.

The Chair welcomed the members and guests to the Annual General Meeting.

* * * * * * * *

APOLOGIES: Hugh G Roberts; Nan Griffiths, Vivian Parry Williams; Steffan ab Owain; A L Darbyshire, Dr Elizabeth Andrews; Hefin Birch; Gaynor Pugh; Aled Ellis; and Catherine Lloyd Griffiths.

1. **The Minutes of the 2014 Annual General Meeting were approved.**
2. **Matters arising from the Minutes:** None
3. **Summary of the Council meeting:** The discussions were summarised explaining the situation regarding *History of Merioneth* Vol III and the difficulties in progressing the project. It was suggested from the floor that the funds could be used to publish other materials associated with the County's history. The Annual General Meeting confirmed the Council's recommendation.
4. **Accounts for the year ending 31 March 2015:** The Final Accounts were accepted (see the Treasurer's comments in the Council Minutes). A member emphasised the importance of supplying e-mail addresses to save postage costs. The Treasurer was thanked for his thorough and detailed work.
5. **Annual Report:** The report was confirmed as correct.
6. **Membership Report:** The Membership Secretary presented her report (see Council Minutes) and the Society's appreciation of all Pamela's work in unpicking this very complex matter was expressed.
7. ***The Journal*:** The Editor stated that the proofs were with the Printers and that the *Journal* will include 5 articles, 4 short contributions, proceedings and 8 reviews. He stated that he had already received 1 article for the next issue. There are 10 CD's of the index still available and work on indexing the next volumes, 5 volumes in all, will start at the end of the year. The Chairman referred to the valuable material contained in the Journal annually and thanked the Editor for his diligent work.
8. **Meetings Organiser:** The Organiser summarised the year's activities (see Council Minutes) and the Chairman expressed our appreciation of her work.
8. **Election of Officers:** The Council's decision to recommend Arwyn Lloyd Hughes as Vice President as an indication of our appreciation of his work was confirmed. The election of Catherine James as a member for Dolgellau on the Council and Jenny Lees to represent Edeirnion were also confirmed. It was stated that there are still vacancies on the Council for Ystumanner and the list of officers recommended by the Council was confirmed (see Council Minutes).
9. **Any Other Business:** The members' attention was drawn to the books available for sale at the meeting. The concerns regarding Pont ar Ddyfi were mentioned.

* * * * * * * * *

The Chairman closed the business meeting by thanking everyone for their support and also expressed our appreciation of the translator's work.

During the remainder of the afternoon Brian Slyfield gave an extremely interesting introduction to the books of Merioneth. The members were very appreciative of the opportunity to leaf through some of the most notable books. Rheinallt Llwyd gave a vote of thanks on our behalf for drawing our attention to the County's important contribution in this field.

Ysgrifennydd / Secretary: Beryl H Griffiths, Nant-y-llyn,
Cynllwyd Uchaf, Y Bala, Gwynedd, LL23 7DF
Ffôn/Tel: 01678 540 384 ysgrifennyddchsf@yahoo.co.uk
ELUSEN GOFRESTREDIG/REGISTERED CHARITY 1102366

Untitled-3 1 14/09/2016 13:46